Beibl i Blant
yn cyflwyno

Daniel a dirgelwch y freuddwyd



Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Jonathan Hay
Cyfieithydd: Catrin Roberts
addaswyd gan: Mary-Anne S.

Stori 32 o 60

www.M1914.org

Bible for Children, *PO Box 3, Winnipeg, MB R3C 2G1 Canada*

Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Welsh

Cafodd y Brenin Nebwchadnesar freuddwyd, ac roedd y freuddwyd yn ei boeni'n fawr. Trwy allu Duw, llwyddodd Daniel i egluro ystyr y freuddwyd i'r brenin.



Y peth cyntaf wnaeth Daniel oedd disgrifio breuddwyd y brenin yn berffaith. "Eich mawrhydi, fe welsoch chi gerflun anferth. Roedd yn aruthrol fawr!"

"Roedd pen y cerflun wedi ei wneud o aur," meddai Daniel.



3

"Roedd ei frest a'i freichiau yn arian."



4

"Roedd ei fol a'i gluniau yn bres."



5

"Roedd ei goesau yn haearn, a'i draed yn gymysgedd o haearn a chrochenwaith."



6

Ar ôl disgrifio'r cerflun, siaradodd Daniel am weddill y freuddwyd.

7

"Fe welsoch chi garreg yn cael ei thorri gan law anweledig," meddai Daniel wrth y brenin.



8

"Dyma'r garreg yn taro'r cerflun ar ei draed, a'u malu nhw'n ddarnau."



9

"Cafodd y cerflun ei falu'n ddarnau mân, fel llwch, a chafodd y cwbl ei chwythu i ffwrdd gan y gwynt." Arhosodd Daniel am eiliad cyn dweud, "Yna fe wnaeth y garreg dyfu'n fynydd enfawr."



10

Safodd y brenin mewn syndod! Dyna'n union oedd wedi digwydd yn y freuddwyd. Sut oedd Daniel yn gwybod hynny? Duw oedd wedi dweud wrth Daniel. Yna dechreuodd Daniel egluro ystyr y freuddwyd i'r brenin.



11

"Mae Duw'r nefoedd wedi rhoi awdurdod, pŵer, grym ac anrhydedd i chi," meddai Daniel wrth y brenin. "Chi ydy'r pen aur."



12

Dywedodd Daniel wrth y brenin y byddai ei deyrnas aur yn colli ei grym i deyrnas lai, dyna'r deyrnas arian.



TEYRNAS 1

TEYRNAS 2

TEYRNAS 3

TEYRNAS 4

13

Byddai teyrnas efydd wedyn yn cymryd drosodd. Ac roedd yr haearn a'r crochenwaith yn cynrychioli teyrnas rhif pedwar.



TEYRNAS 1

TEYRNAS 2

TEYRNAS 3

TEYRNAS 4

14

A dyma eiriau olaf Daniel i'r brenin. "Mae Duw'r nefoedd yn mynd i sefydlu teyrnas fydd yn aros am byth."



15

Sylweddolodd y brenin mai dim ond Duw fyddai'n gallu rhoi'r doethineb oedd ei angen i wybod ac i ddeall ei freuddwyd. Cafodd Daniel ei wobrwyo gan Nebwchadnesar gyda llawer o arian, a'i wneud yn ddyn pwysig iawn yn y deyrnas.



16

Mae Teyrnas 1, 2, a 3 wedi dod ac wedi mynd. Bydd teyrnas Dduw yn dod ar ôl Teyrnas 4.



Bydd y Meseia yn teyrnasu ar y ddaear. Yn fuan, efallai!

17

Daniel a dirgelwch y freuddwyd

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Daniel 2

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Y gosb am bechod ydy marwolaeth.

Mae Duw yn ein caru ni gymaint, fe wnaeth e anfon ei Fab, Iesu, i farw ar Groes. Fe wnaeth e gymryd ein cosb ni. **Daeth Iesu yn fyw eto** ac aeth yn ôl i'r Nefoedd! Nawr gall Duw faddau ein pechodau.

Os wyt ti am droi oddi wrth dy bechodau, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Dduw, rwy'n credu bod Iesu wedi marw drosof fi a'i fod yn fyw eto. Os gweli'n dda tyrd i mewn i'm mywyd a maddau fy mhechodau, er mwyn i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna cael bod gyda Thi am byth. Helpa fi i fyw fel plentyn i ti. Amen. Ioan 3:16

Cofia ddarllen y Beibl a siarad bob dydd gyda Duw!